
# Heddwch

Rhif 2 Hydref 1991 20c



# TRIDENT

## 'Beth uffarn yw e dda?'

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a dros fyd lle bydd yr adnoddau anferth a wastreffir heddiw ar filitariaeth yn cael eu hail-gyfeirio i ddiwallu gwir anghenion y gymdeithas ddynol.

## DIOLCH YN FAWR, NEIL

**Ysgrifennodd Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru at arweinydd y Blaid Lafur, Neil Kinnock ar yr 20fed o Awst, yn sgil ei benderfyniad i adael CND. Dyma destun ei lythyr.**

Annwyl Neil,

Darllenais â gofid am eich penderfyniad i beidio ag adnewyddu eich aelodaeth o CND a gobeithio yr ailystyriwch y weithred hon. Credaf, er gwaethaf ein gwahaniaethau barn parthed sut i gael gwared ag arfau niwclear, mae'r peth gorau yw trafod y rhain mewn ffordd egwyddorol o fewn y mudiad.

Mae CND Cymru'n cydnabod bod o fewn ein rhengoedd wahanol farn ar wahanol faterion, ond yr hyn yr ydym oll yn ei geisio yw byd yn rhydd o ryfel a'r ras arfau. Felly, mae o fudd i ni oll geisio gweithio gyda'n gilydd i sicrhau hynny.

Rwy'n siwr y cytunwch â mi bod agwedd y blaid Lafur tuag at anfoesoldeb arfau yn agosach at eiddo CND nag eiddo'r Blaid Geidwadol.

Mae CND Cymru yn fudiad eang yn cynnwys sawl gwahanol farn wleidyddol ond yn annibynnol ar unrhyw blaid wleidyddol. Dros y blynyddoedd mae llawer o aelodau'r Blaid Lafur wedi chwarae – ac yn dal i chwarae – rhan bwysig yn ein gwaith, a gwerthfawrogaf hynny yn fawr.

Gobeithio, felly, yr ailystyriwch eich penderfyniad i ymadael ag CND a hefyd annog holl aelodau'r Blaid Lafur yng Nghymru i ymuno a chymryd rhan yng ngwaith CND Cymru.

Yr eiddoch mewn heddwch,
Bob Cole

**Fis yn ddiweddarach, ar 19 Medi, danfonwyd llythyr o Dŷ'r Cyffredin wedi ei arwyddo ar ran Mr Kinnock gan un o'i staff. Dywedai:**

Annwyl Bob Cole,

Diolch am eich llythyr. Ymddiheuraf am oedi cyn ateb.

Yr wyf yn ddiolchgar i chi am eich sylwadau.

Yn gywir, Neil Kinnock

# Gair o'r gadair anesmwyth

**Mae Marjorie Thompson, Cadeirydd CND am y deuddeg mis diwethaf, yn sefyll i gael ei hail-ethol yn y gynhadledd y mis yma (Tachwedd). Bu'n siarad â *Heddwch* am ei blwyddyn yn y swydd, Rhyfel y Gwlff, Neil Kinnock, cynigion Bush a'r her sydd yn wynebu'r ymgyrch yn y dyfodol.**



**'Pan gymerais yr awenau oddi wrth Bruce Kent, dywedodd "Croeso i'r sedd boeth", ac yn sicr, mae wedi bod yn anos na'r disgwyl. Ond weithiau, po fwyaf y bydd gofyn i chi ymdrin ag ef, mwyaf oll y cewch y gellwch ymdopi ag ef.**

*Heddwch*: **Yn ddiweddar, llenwyd y newyddion gan gyhoeddiad yr Arlywydd Bush o gwtogi unochrog ar arfogaeth niwclear yr UD. Beth yw'ch barn chi am hynny?**

'Mae pawb yn dweud nad yw cyhoeddiad Bush yn gymaint o gam ymlaen ag yr ymddangosai ar yr olwg gyntaf. Ond rwy'n credu ei bod yn ardderchog clywed Bush yn egluro mai'r rheswm mae'n cynnig hyn yn unochrog yw bod negydu yn cymryd gormod o amser a'i bod yn bwysig gwneud rhywbeth ar frys.

'Felly, mae'n ei gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel i CND gadw diarfogi niwclear unochrog yn rheng flaenaf ein hymgyrchu. Mae'r ffordd y gwnaeth Bush hyn yn golygu y gallwn ddal i wthio cwestiwn Trident, a mynnu bod Prydain yn gwneud rhywbeth, heb betruso.'

*Heddwch*: **Beth ydych chi'n feddwl am fethiant y Blaid Lafur i ymateb i gamrau Bush drwy gynnig y dylid dileu Trident?**

'Mae'n gwbl groes i'r nod y maent wedi ei datgan o sicrhau na welir amlhau arfau niwclear.

'Fedrwch chi ddim dweud "Rydym ni am atal amlhau, ond rydym ni ein hunain yn mynd i ymgymryd â'r cynnydd mwyaf mewn gallu i danio arfau niwclear a welwyd unrhywle yn y byd". Rhaid i ni ddatgelu'r rhagrith hwnnw.

'Mae Neil Kinnock yn cael ei gyflwyno fel rhywun sy'n fodlon bod yn hyblyg mewn byd sydd yn newid, ond mae'r blaid Lafur wedi dangos ei bod yn gwbl haearnaidd ar hyn oll. Yn union fel y gwnaethant gyda Rhyfel y Gwlff, maent yn fodlon gadael i ystyriaethau gwleidyddol gartref oresgyn popeth arall.'

*Heddwch*: **Mae'n amlwg i chi golli amynedd gyda'r Blaid Lafur pan ddywedsoch "good riddance" am benderfyniad Neil Kinnock i gefnu ar CND. Ydych chi'n edifar am hynny yn awr?**

'Dwi ddim wedi derbyn unrhyw ymateb negyddol gan aelodau cyffredin CND ynglŷn â'm sylwadau. Dwi'n credu bod llawer o bobl yn teimlo "hen bryd, hefyd". Maent yn teimlo y dylsem fod wedi gwneud rhywbeth ddwy flynedd yn ôl, pan ymadawodd â ni mewn ysbryd.

'Wrth edrych yn ôl, efallai na ddylwn fod wedi dweud ei fod yn "chantu am bwer" ond roeddwn wedi gwylltio ynglŷn â'r modd dan-dîn yr oeddent wedi penderfynu gollwng y stori allan i un neu ddau o newyddiadurwyr lobi nad oedd Kinnock am adnewyddu ei aelodaeth, yn union wedi i erthygl Kaufman ymddangos yn y Guardian (yn cyhoeddi cynlluniau Llafur i gadw arfau niwclaer cyhyd â bod unrhyw wlad arall â rhai).'

*Heddwch*: **Sut ydych chi'n gweld y berthynas yn awr rhwng CND ag aelodau cyffredin o'r Blaid Lafur?**

'Wrth gwrs, gellwch fod yn aelod o'r Blaid Lafur ac CND a gweithio o fewn y blaid ar y mater. Mae hefyd yn bwysig iawn bod CND yn cael ei weld fel mudiad annibynnol ar unrhyw blaid. Rhaid i ni barhau i weithio yn y Blaid Lafur ond gan gadw ein cyfeillion a'n cysylltiadau â phleidiau eraill.

*Heddwch*: **Cawsoch 'fedydd tân' yn Rhyfel y Gwlff, a beirniadwyd CND am gynghreirio'n rhy glos â grwpiau asgell chwith eithafol a methu adeiladu cynghrair eang yn erbyn y rhyfel.**

'Ni allai unrhyw fudiad dan haul fod wedi atal Prydain rhag cymryd rhan yn y rhyfel, ond byddwn yn barotach ac yn fwy tebygol o allu creu mudiad eang yn y dyfodol. Mewn ffordd, fodd bynnag, fe'n hadfywiwyd gan y rhyfel a'n rhoi yn ôl ar y map. Dangosodd ein bod yn fodlon meddiannu'r faciwm a grewyd gan ruthr Kinnock, Ashown a'u Cwm. i lapio Jac yr Undeb amdanynt.

'Ers hynny, rydym wedi gwneud penderfyniad bwriadol i'n cyflwyno ein hunain fel mudiad heddwch – ac mae'n dda gennyf ddweud bod CND Cymru yn arwain y ffordd yn hyn o beth.

'Mae'r sylwadau diweddar gan y Cadfridog o'r UD Colin Powell wedi dangos pa mor gywir yr oeddem. Mae ef yn dweud nad oes bellach angen rhai o'u harfau niwclear tactegol ar yr UD, am i Ryfel y Gwlff ddangos y gall eu harfau "confensiynol" "wneud y job" yr un mor effeithiol.

'Fiw i neb ddweud y dylai CND gyfyngu ei ymgyrchi i arfau *niwclear* yn unig. Doedd na'r fath beth â ffrwydron tanwydd awyr pan lawnsiwyd yr ymgyrch ym 1958.'

## FFEITHIAU AM DDIM

Mae pobl ifainc yn y broses o benderfynu beth yw eu barn ar y cwestiwn niwclear, ac maent debycaf oll o'i drafod gyda chyfeillion a theulu. Mae'n bwysig felly bod y ffeithiau ar gael iddynt cyn iddynt benderfynu'n derfynol.

Dyna pam bod CND Cymru yn cynhyrchu llyfryn newydd dwyieithog ar gyfer y deunaw oed. Gan ddefnyddio iaith blaen, ffigurau a chartwnau, rhydd y llyfryn y rhesymau dros ein gwrthwynebiad i arfau niwclear.

Dosberthir y llyfryn rhad ac am ddim yn eang drwy undebau myfyrwyr a chlybiau ieuenctid yn ogystal â bod ar gael ar stondinau CND. Gobeithiwn hefyd y cytuna grwpiau i ddanfon copiau at bawb sy'n pleidleisio am y tro cyntaf yn eu hardal hwy (gan ddefnyddio'r cofrestr etholiadol).

Mae copiau ar gael am gost y post yn unig (am gopiau sengl, amgaewch amlen â stamp) oddi wrth Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe, SA8 3AN (tel: 0792 830330).

# Rhaid i wleidyddion wynebu'r her niwclear

**CND Cymru, cwtogi ar arfau'r UD, ac ymgyrchu, gan Bob Cole, Ysgrifennydd Cyffredinol**

Gadewch i mi ei gwneud hi'n hollol glir o'r cychwyn cyntaf bod CND Cymru yn croesawu unrhyw gwtogi ar arfogaeth unrhyw genedl, boed yn unochrog, yn ddwyochrog neu'n amlochrog. Felly, mae'n galonogol gweld UDA yn gwneud toriadau unochrog yn ei harfogaeth niwclear, a chlywed Tom King yn cytuno i ddileu taflegrau tactegol a phellter-byr Prydain.

Fodd bynnag, y tu ôl i'r cyhoeddusrwydd slic â'i nod o roi buddugoliaeth cysylltiadau cyhoeddus i Bush, beth mae hyn oll yn ei olygu i'r mudiad heddwch yng Nghymru?

Yn gyntaf oll, nid yw Bush yn colli cymaint â hynny. Prin bod y cam hwn yn cyffwrdd â phrif arfau niwclear strategol yr UD, oherwydd bod prif arfau'r UD wedi ei lleoli ar longau tanfor, tra bod rhai'r Undeb Sofietaidd wedi eu lleoli ar dir.

Fel yr adroddodd Martin Walker yn y *Guardian*: 'Tra bod Mr Gorbachev yn datgan ei fod yn eiddgar i ymateb yn gydradd i gynigion yr Arlywydd Bush, mae'r cynigion hynny, fel y maent, yn galw am ddileu prif nerth llu niwclear yr Undeb Sofietaidd, ei daflegrau aml-ergyd SS-18, tra'n gadael prif luoedd strategol tanfor America heb eu cyffwrdd.'

Serch hynny, rydym yn dyst i newidiadau mawr yn y ras arfau y dylem eu croesawu a'u cefnogi. Yma yng ngwledydd Prydain, rhaid i ni bwyso i'r eithaf ar yr holl bleidiau gwleidyddol i fachu'r cyfle i gael gwared â'r perygl niwclear cyn gynted ag y bo modd.


Nid digon cael gwared o arfau llai Prydain tra'n bwrw ymlaen ar yr un pryd â Trident a'r taflegrau awyr-i-ddaear newydd. Ni allwn ddisgwyl i Gorbachev barhau i ymateb drwy gwtogi ar ei arfau ef wrth i ninnau gynyddu ein rhai ni o ffactor o 8 (o 64 ergyd ar Polaris i 512 ar Trident).

Mae'n drasedi y gallwn dalu £10 biliwn am Trident tra bod y gwasanaethau iechyd ag addysg yn cael eu hamddifadu o adnoddau. Mae'n drasiedi fwy hyd yn oed bod y Blaid Lafur bellach yn cefnogi Trident, pan allai ennill yr etholiad drwy addo cael gwared ohono a defnyddio'r arian a arbedwyd ar y gwasanaeth iechyd.

Hyd oni wneir hynny gan bwy bynnag sydd mewn grym, ein gwaith ni yw ymgyrchu i ddatgelu ffolineb Trident. Fel y dywedodd y Cad-Farsial yr Arglwydd Carver, cyn Bennaeth y Staff Amddiffyn: 'Beth uffarn yw e' dda?' Wnaeth Polaris ddim atal yr Archentwyr rhag goresgyn ynysoedd Falkland, ac ni allodd cyfuniad o arfogaeth niwclear UDA, Ffrainc, Prydain a'r Undeb Sofietaidd rwystro Saddam Hussein rhag goresgyn Kuwait.

Nid oes unrhyw ddefnydd y gellir ei ddychymygu i Trident a'r taflegrau tactegol awyr-i-ddaear newydd yn y byd sydd ohoni. Gydag etholiad cyffredinol ar y gorwel, dyma gyfle euraid i holi pob ymgeisydd ynglŷn â'u safbwynt ar yr arfau hyn.

Rhaid i CND beidio â chilio yn wyneb y gwaith sydd o'n blaenau. Ein gwaith yng Nghymru yw sicrhau y croesholir pob ymgeisydd ynglŷn â'u hagwedd tuag at Trident. Os ydynt yn ei gefnogi, yna rhaid iddynt gyfiawnhau'r gwariant ac ateb cwestiwn yr Arglwydd Carver – beth yw e dda, yn erbyn pwy y defnyddir ef?



## Trywanu Trident!

Dylid croesi peiriannau golchi Hotpoint a bylbiau golau Mazda oddi ar restr siopa ymgyrchwyr gwrth-niwclear medd trefnwyr boicot newydd o GE/GEC.

Y cwmni Prydeinig GEC a'r un Americanaidd GE (General Electric) yw dau o gynhyrchwyr mwyaf cyfansoddrannau arfau niwclear, yn enwedig ar gyfer llongau tanfor Trident, ac nid ydynt yn debyg o wrando ar ddadleuon ynghylch moesoldeb yr hyn y maent yn ei wneud.

Beth fydd yn effeithio ar y ddau gwmni fydd pwysau economaidd, ac mae'r amrywiaeth anferth o gynhyrchion meddygol a rhai bob dydd y maent yn gyfrifol amdanynt yn eu gwneud yn agored iawn i bwysau defnyddwyr.

Nod CND a'r Ymgyrch Feddygol yn erbyn Arfau Niwclear (YFAN) yw gwneud i GEC a GE sylweddoli nad yw ysbytai a theuluoedd yn fodlon eu noddi bellach.

Bydd y boicot yng ngwledydd Prydain yn adeiladu ar sail gwaith 'mudiad cyfrifoldeb corfforaethol' yr UD, INFACT, sydd wedi bod yn trefnu boicot o GE er 1986.

Mae INFACT eisoes wedi`rhedeg boicot llwyddiannus dros ben o'r cynhyrchwyr bwyd, Nestle, gan orfodi'r cwmni ym 1984 i newid yn sylweddol y modd y byddent yn marchnata llaeth potel i fabanod yn y Trydydd Byd.

Mae gan yr ymgyrch yn erbyn GE – y trydydd cwmni o ran maint yn yr UD – fwy na phum miliwn o gefnogwyr ar draws yr UD, gan gynnwys nifer o ysbytai sydd wedi gwrthod prynu offer meddygol drudfawr.

Gwelwyd y canlyniad cyntaf y llynedd pan benderfynodd GE roi'r gorau i gynhyrchu'r generadur niwtron, y ddyfais danio ar gyfer pob bom niwclear a wnaed gan yr UD er y 1950au, a daw hyn i rym ym 1992.

Dengys ymchwil CND ac INFACT hyd a lled ymwneud y ddau gwmni ag arfau niwclear. Mae GEC a'i is-gwmniau yn derbyn mwy nag ugain contract gwahanol ar gyfer y system Trident Brydeinig, gan gynnwys rheoli adeiladu'r gwaith lle cynhyrchir yr ergydion niwclear (contract a oedd i dderbyn cymhorthdal cyfrinachol pellach o £25 miliwn gan y llywodraeth, yn ôl adroddiad yn y Guardian ym mis Chwefror 1991.

Felly beth ddylid ei groesi oddi ar y rhestr siopa? Bydd yr Ymgyrch Feddygol yn erbyn Arfau Niwclear, wrth gwrs, yn canolbwyntio ar eitemau na ellir eu prynu mewn archfarchnad, tra bod CND yn pwysleisio pwysigrwydd gwrthod prynu cynnyrch rhatach na hynny ond a all fod ag effaith economaidd ddeifiol; mae dewisiadau eraill ar gael ar gyfer pob cynnyrch. Mae'r boicot yn cynnwys Hotpoint, Creda, Cannon (nid y llun-gopiwyr), Jackson, Redring ac Xpelair (cydberchenogion, GEC a GE), Thorn, Mazda, a goleuo Tungsram (GE) ac offer teleffon GEC.

*Bydd copiau o'r daflen ffurflenni ymrwymo, pecyn ymgyrch boicot sy'n rhestru cynnyrch amgen ar gael cyn hir oddi wrth CND West Midlands, 54 Allison Street, Birmingham B5 5TH; 021-643 4617.*

## NEB YN HIDIO?

Dywed rhai nad oes gan fyfyrwyr amser i'w roi i ymgyrchu dros heddwch – na'r dosbarth gweithiol, heb son am ieuenctid – a pheidiwch ag anghofio'r gymuned ethnig yng Nghymru. Felly, mae difaterwch yn rhemp!

Mae'r fath agweddau negyddol yn rhy gyffredin yn y mudiad heddwch, ond nid ydym ni yn Siop Heddwch Caerdydd yn cytuno. Yn lle hynny, fel hoffem ni wybod beth yw barn y bobl hypothetig hyn ar heddwch a materion cysylltiedig.

Mae sut mae mynd ati yn gofyn cryn dipyn o feddwl a gwaith caled. Mae gennym rai syniadau ond mae croeso i ragor – ac wrth gwrs, mae angen pobl i wneud i gynlluniau weithio.

Os ydych chi, y darllenydd, yn efrydydd, neu'n perthyn i'r gymuned Islamaidd, a oes gennych chi unrhyw syniadau sut y gellir dwyn y mudiad heddwch allan o'r ystafell bwyllgor i dir llai cyfarwydd?

Os oes gennych syniad, neu gyngor da, ni waeth pa mor fychan, rhowch wybod i ni, da chi. Os ydych eisoes yn y mudiad, dewch i gysylltiad. Mae angen i ni rannu profiadau a dysgu oddi wrth ein gilydd.


Rydym wedi cychwyn arni gydag Undeb Myfyrwyr Caerdydd, gan osod stondinau, a dod i adnabod y swyddogion sabathol a phapur-newydd y myfyrwyr. Mae myfyrwyr eu hunain wedi arddangos ynni newydd a diddordeb.

Rydym yn ddiolchgar am y cymorth a gawsom eisoes. Yn sicr, mae wedi dinistrio rhai o'r mythiau am ddifaterwch myfyrwyr. Ein cam nesaf yw canolfannau cymuned Caerdydd a phobl sydd yn ymwneud â hwy.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

**Dawn Clarke, Siop Heddwch Caerdydd**

# Pwer cardiau post i ddileu glaw asid?




**Efallai mai blas finegr gwan fydd arno. Ar ddiwrnod gwael, gall fod mor sur â sudd lemwn. Fel arfer, bydd yn ymddangos yn weddol ddi-flas. Glaw asid yw'r stwff, ac erbyn hyn, dyma'r bygythiad amgylcheddol mwyaf difrifol i Gymru.**

Â chryn chwithdod, mae'r llywodraeth yn cytuno. Dengys mapiau a gyhoeddwyd eleni gan Adran yr Amgylchedd hyd yn oed pe cyrhaeddid y nod bresennol o gwtogi 60% ar ein allyriant sylffwr diocsid (y prif nwy asid) erbyn y flwyddyn 2003, y bydd ardaloedd eang o Wynedd, de-orllewin Clwyd, gorllewin Powys a llawer o Orllewin Morgannwg a Blaenau'r Cymoedd yn dal yn ddiamddiffyn yn erbyn alldafliad asid o'n gorsafoedd ynni tanwydd ffosil.

Yn wir, mae rhan anghymesur o fawr o'r DU a fydd yn dal mewn perygl ar ôl 2005 yn digwydd bod yng Nghymru. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol, David Hunt yn ddiweddar '... oherwydd natur asidig peth o ddaeareg Cymru, nid welir cymaint o welliant ag y byddem wedi ei hoffi'.

Mae daeareg, yn enwedig yng Ngwynedd, yn ffactor yma, yn wir. Eryri yw un o eco-systemau mwyaf sensitif gorllewin Ewrop, ac un o'r rhai a fygythir fwyaf gan unrhyw gynnydd mewn asidrwydd.

Does dim rhaid i chi fod yn wyddonydd i ddeall hyn – dim ond nodi bod gan y Parc Cenedlaethol broblem fawr yn awr gyda lledaeniad y rhododendron, sydd yn ffynnu mewn amodau asid. Lliw papur litmws a drochwyd mewn asid gwan yw'r blodau, wrth gwrs.

Y pwynt syml i'w wneud yma yw na all Cymru newid ei daeareg. Yn hytrach, yr hyn ddylai fod yn digwydd yw bod y llywodraeth yn talu sylw i gyngor cyrff megis ei 'Grŵp Adolygu Dyfroedd Asid' sydd yn adrodd os oes gobaith dychwelyd llynoedd â asideiddiwyd megis Gamallt a Brianne i'w cyflwr gwreiddiol, yna rhaid gwneud toriadau o 90% yn ein hallyriant sylffwr diocsid cyn gynted ag sy'n bosibl.

Dywed cyrff megis Cyfeillion y Ddaear Cymru mai'r unig ffordd y gellir sicrhau'r toriadau hynny yw drwy ddefnyddio offer rheoli llygredd megis yr offer Datsylffwreiddio Nwy Simnai (DNS).

Ac eto, ar drothwy preifateiddio'r diwydiant trydan, cefnodd y llywodraeth ar ei chynlluniau i osod DNS ar 11,000 megawat o orsafoedd ynni. (Doedd dim o hyn yng Nghymru, gyda llaw.)

Hawlia bellach y gellir cael gostyngiadau llawn mor effeithiol drwy losgi glo sylffwr isel. Mae hyn y gwbl afrealistaidd.

Mewn gwirionedd, mae'r bygythiad asid i Gymru wedi cynyddu gyda cheisiadau diweddar gan National Power a Power-Gen i ollwng sylffwr diocsid a ocsidiau nitrogen o orsafoedd sy'n llosgi tanwydd ffosil sydd yn llygru Cymru.

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi protestio'n uniongyrchol wrth Arolygwyr Llygredd ei Mawrhydi y dylid gwrthod y ceisiadau hyn gan y byddant yn dylanwadu'n uniongyrchol ar amgylchedd Cymru. Mae CyDd Cymru wedi gofyn i David Hunt hefyd am gyfarfod pesonol i drafod problem fwy cyffredinol asideiddio Cymru yn ei chrynswth.

Parthed mannau unigol arbennig o wael, mae'r Awdurdod Afonydd bellach wedi mabwysiadu'r strategaeth amheus o galchu naill ai'r dyfroedd neu'r tir dalgylch o gwmpas.


Mewn ymgais i ddarbwyllo ein meistri gwleidyddol bod yn rhaid cymryd y broblem o ddifri calon bellach, mae CyDd Cymru wedi cynhyrchu 'cerdyn post glaw asid', yr amgaeir copi ohono gyda'r rhifyn hwn o Heddwch. I ymuno â'r ymgyrch ollbwysig hon, ychwanegwch stamp a'i ddanfon at eich AS yn San Steffan.

Efallai nad ymddengys yn weithred o bwys mawr, dim mwy na defnyddio llai o drydan gartref ac yn y gwaith, ond rhaid wrth y pwysau unigol hwn er mwyn mynd i'r afael â'r petruso gwleidyddol a'r anwybodaeth amgylcheddol sydd wrth wraidd niwed asid i Gymru.

Am fwy o gardiau post rhad ac am ddim, danfonwch at CyDd Cymru, 3 James St., Porthcawl, Morgannwg Ganol, CF36 3BG.

**Robert Minhinnick**

● ATAL Y WASG: Gallai cynlluniau i losgi tanwydd Orimulsion yng Ngorsaf Ynni Penfro ychwanegu'n sylweddol at lygredd asid yn y Canolbarth a thu hwnt.



Arwynebedd ag asidrwydd uwch na llwyth critigol y pridd



# Twyllresymeg hedfan isel

**Pan ddisgynnodd Tornado ym Mae Caerdydd ar 12 Medi, dyna'r 28ain damwain gydag awyren filwrol hedfan-isel i ddigwydd yng Nghymru er 1980. Daeth y tair damwain ym 1991 yn agos iawn at fod yn drychinebau, gyda'r awyrennau'n methu Casnewydd, Carno, a'r Barri neu Gaerdydd o ddim ond mater o eiliadau.**

**Mae'n amlwg bod hedfan isel yn beryglus. Gall wneud bywyd yn boen – yn enwedig i'r bobl hynny sydd yn byw o dan y 'gylchfa hedfan eithriadol-isel' ym Mhowys. Mae'n defnyddio swm anferth o danwydd ac yn niweidio'r amgylchedd. Felly pam mae'r awyrlu'n parhau i wneud?**

Diben hedfan isel oedd cyrchoedd bomio (niwclear) lefel-isel dros ganolbarth a dwyrain Ewrop er osgoi radar ac amddiffynfeydd gwrth-awyren Cynghrair Warsaw. Nid yw Prydain bellach yn cynllunio ar gyfer rhyfel yn Ewrop.

Wedi damwain ddiweddar yng Nghymru, dywedodd yr Awyrlu: 'Rhaid i ni hedfan yn isel neu farw'. Yn rhyfel y Gwlff, hedfanodd peilotiaid Tornado yn eithriadol o isel a dioddef y colledion gwaethaf o'r holl awyrluoedd y gynghrair. Mewn geiriau eraill, hedfan yn isel a marw. Disodlwyd hedfan isel gan dacteg yr UD o ymosod o'r 'awyr ganol'.

Parodd yr Uwch-Gadfridog Perry Smith, sydd newydd ymddeol o Awyrlu'r UD, syfrdandod yn yr Awyrlu Prydeinig yn ystod y rhyfel, pan ddisgrifiodd dactegau hedfan isel Prydain fel rhai 'hunan-laddol'. Ond mae'n dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn iawn.

Collwyd saith o 40 Tornado yn y Gwlff. Yn syml iawn, 'hedfan i mewn i'r ddaear' wnaeth tair o'r rhain. Niweidiwyd dwy gan ffrwydriad eu bomiau eu hunain. Dim ond dwy a saethwyd i lawr a hynny nid gan daflegrau daear-i-awyr soffistigedig, mae'n debyg, ond gan filwyr Iraci yn 'gorwedd ar eu cefnau' a thanio llen o fwledi o'u gynnau otomatig a dynnwyd i mewn i sugnyddion awyr yr awyrennau.

Os collir awyrennau hedfan-isel wrth hyfforddi, mae'n amlwg y collir hwy mewn brwydr pan fyddant yn hedfan hyd yn oed yn is (i lawr i 50 troedfedd) ac yn wynebu gynnau'r gelyn. Mae'r Awyrlu (a'r cyhoedd Prydeinig) fel pe baent yn derbyn hyn fel pris gwerth ei dalu.

Mae anghytundeb ymhlith dadansoddwyr amddiffyn Prydeinig gyda rhai'n cefnogi barn yr Awyrlu mai hwy yw'r gorau, a bod ar yr Americaniaid 'ofn' hedfan yn isel. Cred eraill bod yr Awyrlu yn parhau i hedfan yn isel am eu bod wedi hedfan yn isel erioed. Byddai rhoi'r gorau i hyn, neu wneud llai ohono yn niweidio'r ysbryd ac yn rhoi llai o amlygrwydd cyhoeddus i'r Awyrlu.

Ysgrifennodd Alex Renton yn yr Independent ar y 24 Mai: 'Rhaid oedd i'r Gwlff hefyd arfogi'r isfarsialiaid i ymladd y frwydr wedi'r rhyfel yn Whitehall: yn bennaf yn erbyn y cwtogi hallt ar wariant ar yr awyrlu a gynllunir yn nogfen 'Options for Change' y llywodraeth. Yn uchel ar y rhestr roedd dileu tair sgwadron Tornado...'. Mae'n werth cofio mae RAF Sain Tathan yw canolfan cynnal a chadw'r awyrennau Tornado.

Cred Malcolm Spaven, o Brifysgol Caeredin na cheir newid yn y farn gyhoeddus hyd oni leddir dinasyddion cyffredin (yn enwedig plant) mewn damwain awyren. Ar ôl damwain Carno, cyfaddefodd yr Awyrlu mai dim ond mater o amser yw hynny, o bosib.

Wrth i ni fynd i'r wasg, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n cwtogi 33 y cant ar hedfan isel *dros y tair blynedd nesaf*. Ond nid ydynt eto wedi dysgu gwersi Rhyfel y Gwlff a mynnant o hyd bod y dacteg hon yn anghenreidol. Rhaid i CND Cymru ddal i bwyso am ailfeddwl

Mae herio 'rhesymeg' hedfan isel yn un cam tuag at herio holl athroniaeth gwyrdroedig 'amddiffyn', 'heddwch drwy nerth' a 'brawataliaeth'.

**James Stewart**

Air force admits low flying threat to civilians on the ground

**RAF WARNS OF CRASH RISKS**

Shropshire Star

Mae'r Awyrlu Brenhinol yn fodlon derbyn marwolaethau dinasyddion cyffredin fel pris parhau i hedfan yn isel dros Gymru.

'Yn ystategol, rhaid dweud bod yna debygrwydd cynyddol y lleddir person cyffredin ar y ddaear', meddai Michael Hill, pennaeth cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer RAF Strike Command. Roedd yn siarad ar ôl gwrthdrawiad dros Garno ym Mhowys, lle lladdwyd peilotiaid awyren jet yr Awyrlu ac awyren Cessna.

Cwympodd drylliau o'r gwrthdrawiad ar dai a gerddi yn y pentref, ond, drwy ryw wyrth, nid anafwyd neb ar y ddaear. Bu 28 o ddamweiniau gydag awyrennau milwrol yn hedfan yn isel dros Gymru yn y deng mlynedd diwethaf.

'Fe ddaw adeg – yn anffodus – pan leddir rhywun ar y llawr',

## POST AWYR

Annwyl Heddwch,

Rwyf newydd ddarllen Heddwch, ac mae'n llawn o bob math o erthyglau da, ond rhaid cyfaddef fy mod wedi gobeithio am ymdriniaeth fanylach o'r ymgyrch yn erbyn hedfan isel.

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r ymgyrch yn erbyn hedfan isel yng Nghanada am fwy na thair blynedd.

Mi ddosbarthaf daflenni yn ddigon bodlon os mai dyna'r peth mwyaf effeithiol ar y foment, ond rwyf wedi syrffedu ar ddim ond hanner gwneud pethau.

Dyma fy syniadau am Ymgyrch yn erbyn Hedfan Isel yng Nghymru;

**Ymchwil** – Ymchwil gofalus, cynhwysfawr yw'r allwedd i gydnabyddiaeth a chyhoeddusrwydd sydd yn creu'r pwysau cyhoeddus angenrheidiol i newid pethau.

**Pwysau Gwleidyddol** – Mae'r ASau a'r ASEau sydd â'r wybodaeth angenrheidiol ac sy'n fodlon gwneud stwr yn werthfawr.

**Llythyron** – Gall pob unigolyn ddanfon neges bersonol sydd yn effeithio ar wleidyddion etholedig gan eu bod yn eu darllen.

**Pwysau Rhyngwladol** – Nid yw llywodraethau cenedlaethol yn hoffi cael eu beirniadu'n rhyngwladol. Gall llythyron i bapurau newydd mewn gwledydd eraill sy'n profi'r un problemau fod yn effeithiol. Llythyron hefyd at eu Gweinidog Amddiffyn neu eu Prif Weinidog.

**Gweithredu Rhyngwladol ar y Cyd** – Mae Cynghrair Heddwch Canada yn ceisio trefnu cyfarfod rhyngwladol o gynrychiolwyr o'r holl wledydd yr effeithir arnynt yn yr hydref.

**Gweithredu Sifil** – Pan fetha popeth arall, gall ymgyrchoedd ymyrryd sy'n ei gwneud hi'n anodd rhedeg y gweithgareddau tramgwyddus o ddydd i ddydd fod yn ddefnyddiol.

Rwyf am weld terfyn ar hedfan isel o fewn 12 mis and mae gennyf ddigon o ynni i'w roi i'r ymgyrch. Unrhyw gyngor – rhowch wybod i mi.

**Gillian Metcalf, Llanbedr**

## YN FFAU'R LLEWOD

Cynhaliodd Cyngor Cenedlaethol CND Cristnogol (yr wyf yn aelod ohono) ei gyfarfod mis Medi yn yr Alban yn lle Llundain, lle bydd yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn.

Roedd dwsin ohonom, a chawsom groeso cynnes yng Ngwersyll Heddwch Faslane, lle buom yn bwrw dwy noson.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi meddiannu 28,000 erw o dir yn Swydd Dumbarton yn unig, gan adael llawer ohono'n ddiffaith.

Mae mwy o arian yn cael ei wario yno nag ar Dwnel y Sianel. Gwariwyd £250 miliwn eisoes, lawer o hynny ar lifft llongau anferth. Mae hwn cyfuwch ag adeilad 16-llawr, wedi ei ddylunio i godi Trident o'r dŵr. Mae Trident yn dadleoli 15,000 tunnell o ddŵr, sef dwywaith maint unrhyw long danfor arall.

Mae dyfroedd Gareloch bum gwaith yn fwy ymbelydrol na dŵr cyffredin. I roi amcan i ni o faint Trident, dywedwyd wrthym y byddai'n llenwi George Square, Glasgow a'r lle saif y Ganolfan Ddinesig.

Cyflawnwyd gweithred fore Sul. Penderfynodd pedair o'r menywod i beintio dyfyniad o Lyfr Daniel ar y ffens.

Ymunodd llawer o bobl eraill â ni fore Sul, rai ohonynt wedi dod yr holl fordd o Newcastle, Glasgow, ac ati. Roedd rhyw dri dwsin ohonom i gyd. Llwyddodd y peintwragedd i gwblhau eu holl beintio cyn yr aed â hwy i'r ddalfa. Wedi iddynt gael eu restio a'u dwyn i mewn i'r gwersyll, aeth ein gwasanaeth yn ei flaen.

Roedd yn benwythnos gwych. Dylem fod yn chwarae rhan lawer mwy yn y mudiad gwrth-Trident. Bwriedir ei lawnsio yn Barrow y gaeaf yma, ond ni ddisgwylir ef yn Gareloch tan 1994. Maent hwy'n dal i obeithio na fydd yn cyrraedd byth.

**Rowena Thomas**
**Wrecsam**

# Nam ar y dychymyg

**Adolygiad.** *The Gulf Between Us: The Gulf War and Beyond*, **gol. Victoria Brittain (Virago, 1991, £5.99)**

'Nam ar y dychymyg yw pob rhyfel.' Geiriau un o'r cyfranwyr, Edward Pearce, ond mae'r neges yn llamu allan o bob tudalen o'r gyfrol fer, rymus hon.

Dechreuodd y dychymyg ballu, fel y noda Alexander Cockburn ac Andrew Cohen, gyda'r cymorth hael a roddodd y gorllewin i Saddam Hussein am ddegawd bron, i'w helpu i fomio, gwenwyno â nwy ac arteithio ei bobl ei hun, a phobl ei gymydog, Iran.

Parhaodd gyda'r adeiladu di-drugaredd tuag at ryfel wedi i Saddam oresgyn Kuwait, a'i anterth oedd pan ddywedodd newyddiadurwr Americanaidd bod bomio Baghdad ' yn union fel y Pedwerydd o Orffennaf'. Mewn geiriau plaen, fel y dywed Pearce, 'Mae gennym y gallu i ladd, ond ddim, efallai, y gallu i hidio.'

Gwna'r cyfranwyr i'r gyfrol eu gorau glas i wneud yn iawn am y diffyg ar ein dychymyg torfol – mewn ffyrdd hynod o wahanol. Mae rhai awduron yn llunio'u dadleuon drwy grynhoi'r ffeithiau a dadansoddi'n fanwl – megis crynodeb Faleh'Abd al Jabar o'r digwyddiadau gwleidyddol o fewn Irac yn arwain at oresgyn Kuwait, neu ddarn Barbara Rogers ar y modd yr herwgipiodd UDA y CU.

Ceisia eraill fel Fadia Faqir ein tywys, chwedl hithau, i 'lygad y storm' drwy straeon ffuglen (yn seiliedig ar ffaith) am brofiad menywod unigol o Arabiaid a rwydwyd gan y rhyfel neu gan ei effeithiau. 'Heb lais o gwbl yn yr hyn sydd yn digwydd yn yr arena wleidyddol hwy, ynghyd â'u plant, yw colledigion anghof y cylchdro trais.'

Fel Faqir, ceisia Grace Paley weu profiad personol a dadansoddiad byd-eang ynghyd yn ei hanes am y safiad yn erbyn y rhyfel gan weithredwyr dros heddwch yn America. Mae'n cloi gyda rhestr ddeifiol o ddibenion y rhyfel a'i ganlyniadau ofnadwy. 'Rhyfel oedd hwn i sicrhau y gall Americaniaid barhau i ryfela, a hoffi hynny.'

Mae darn Edward Pearce yn ymdrin â 'chyffredinedd llygadloyw' y rhan fwyaf o'r cyfryngau Prydeinig yn mygu dychymyg y cyhoedd ynglŷn â gwir ystyr termau fel 'niwed cyfochrog' (*'collateral damage'*) a 'thargedi meddal'. Ond mewn gwirionedd, llifeiriant o gynddaredd yn erbyn y marw a fu yw hwn, ac yn erbyn y rheini ohonom a ddewisodd beidio â dychmygu sut y bu'r meirwon farw.

Ysgrifennwyd y llyfr hwn o fewn wythnosau i ddiwedd y rhyfel ond gwyddom bellach, drwy asiantaethau cymorth megis UNICEF, eu bod yn dal i farw yn Irac. Maent yn marw oherwydd i'r gynghrair fomio tyrau dŵr a systemau carthffosiaeth a gorsafoedd ynni, ac yn marw am nad yw'r UD a Phrydain wedi cytuno hyd yma i lacio gwaharddiadau er caniatau bwyd ac offer meddygol i mewn i Irac.

Bydd darllen y llyfr hwn yn awr yn ei gwneud hi'n anos anghofio nad yw'r rhyfel, i filoedd o Iraciaid, ar ben o hyd.

**Jo Edwards**

● Mae ymgyrchwyr dros heddwch wedi amcangyfrif y restiwyd 6,000 o wrthdystwyr yn UDA yn ystod y rhyfel. Fel y dywedodd un ohonynt, 'Dywedodd Bush na allai glywed unrhyw leisiau gwrth-ryfel, ond doedd e ddim yn gwrando.'

Yn y cyfamser, mae Tribiwnlys




Charlie Murphy

Troseddau Rhyfel Rhyngwladol wedi bod yn clywed tystiolaeth ynglŷn â beth ddigwyddodd mewn gwirionedd yn ystod rhyfel y Gwlff.

Meddai Ramsay Clark, yn siarad yn y gwrandawiad cyntaf yn Efrog Newydd ar 11 Mai: 'Nid rhyfel oedd hwn mewn gwirionedd, ond, yn hytrach, defnyddio deunydd technolegol i ddinistrio gwlad ddiamddiffyn. Lladdwyd rhwng 125,000 a 300,000 o bobl ... cyfnabyddwn mae ein swyddogaeth ni mewn hanes yw dwyn y tramgwyddwyr i gyfiawnder'.

Mae mwy o wybodaeth ar gael gan Gomisiwn Ymchwil y Tribiwnlys Troseddau Rhyfel Rhyngwladol, 36E 12th St., 6th Floor, Efrog Newydd, NY 10003, UDA.

*(Gywbodaeth o People to People)*

# Derbyn yr alwad

Adolygiad: *Heddychiaeth Gristnogol yng Nghymru* gan Gwynfor Evans (Gwasg Gomer).

Bwriad y gyfrol yma yw cofnodi y modd y mynegwyd y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru yng nghyd destun rhyfel a heddwch. Y mae'r awdur yn gwbl argyhoeddiedig mai cyfrifoldeb y Cristion yw nid yn unig arddel heddychiaeth fel egwyddor ond ei gweithredu.

Dyna fu tystiolaeth yr Eglwys Fore ac, ym marn Dr Evans, y mae'r angen yn fwy fyth felly heddiw.

Wrth reswm, aeth y gyfrol i'r wasg cyn y digwyddiadau syfrdanol yn yr hyn a elwid gynt yn Undeb Sofietaidd a datganiadau diweddar yr Arlywydd Bush ynglyn a diarfogi niwcliar. Ond byddai'r Dr Evans am weld yr Eglwys Gristnogol yn wynebu her y nawdegau a chyhoeddi'r Efengyl o Dangnefedd.

Yr hyn a geir, mewn gwirionedd, yw cofnod o weithredoedd arwrol gan Gristnogion o Gymru. Mae ambell i enw yn gyfarwydd, megis Henry Richard a George M. LL. Davies ond prin y gwyddom ddigon am eu cyfraniad. Ac y mae eraill, er iddynt gyfrannu'n helaeth, wedi hen fynd yn angof.

Yn ol y Dr Evans dioddefodd Thomas Rees 'fwy o'i erlid nag odid un gweinidog o heddychwr 'a buddiol yw cael ein hatgoffa o'i arwriaeth mewn cyfnod, sef y rhyfel byd cyntaf, pan roedd elfen gref o fewn yr eglwys Gristnogol yn ymhyfrydu yn y ffaith bod bechgyn ifanc o Gymru yn gwisgo lifrau militaraidd ac yn gwasanaethu y goron. Nid mater syml o argyhoeddiad personol ond gweithred arwrol tra cyhoeddus oedd arddel heddychiaeth i bobl fel Thomas Rees.

Y duedd y dyddiau hyn yw credu taw sefydliad sydd wedi goroesi ei werth a cholli ei weledigaeth yw'r eglwys Gristnogol ac taw ffugbarchusrwydd yw'r unig beth sy'n nodweddu'r Cristion, mae'n fuddiol i ni gael ein hatgoffa o safiadau dewr ac egwyddorol gan Gristnogion o argyhoeddiad a bod y dystiolaeth o blaid heddychiaeth yn rhan annatod o genhadaeth yr eglwys.

Cyfrol i'w darllen a'i thrysori yw hon gan ei bod yn ein hatgoffa o'r holl rym a chyfoeth y byd wrthsefyll gwir argyhoeddiad.

**Rhodri Glyn Thomas**



Rod Stallard

Eppynt 31.8.1991

# Ffars gwastraff niwclear NIREX

**Mae grwpiau amgylcheddol wedi condemnio'r cyhoeddiad mai Sellafield yw'r dewis safle ar gyfer claddfa tymor-hir i wastraff niwclear lefel isel a lefel ganolradd.**

'Ffars yw hyn', meddai Pete Roche, Ymgyrchydd Niwclear Greenpeace. 'Nid yw'r cynnig hwn yn seiliedig ar wyddoniaeth, ond ar yr angen am ateb gwleidyddol i'r broblem.'

Meddai'r Daearegwr Ymgynghorol Philip Richardson: 'Pwy all ymddiried mewn unrhyw fodd mewn proses sydd, ar ôl chwilio holl dir mawr Prydain a'r silff gyfandirol, yn datgan mai dau safle niwclear yw'r llefydd gorau ar gyfer ystorfa o'r fath.'

Mae pobl Cumbria yn ymgunnull i wrthwynebu'r gladdfa a fyddai'n ymestyn safle Sellafield, ac yn golygu bod gwastraff niwclear wedi ei gladdu o dan ymylon Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd.

Mae Greenpeace yn galw am storio pob gwastraff niwclear ar y safle lle cynhyrchir ef, uwchlaw wyneb y ddaear, mewn modd cwbl ddiogel sy'n golygu y gellir cadw llygad ar y gwastraff a'i dynnu oddi yno os bydd angen.

Mewn cynhadledd i'r wasg, cyfaddefodd NIREX y byddai'n anodd dros ben tynnu'r gwastraff oddi yno wedi cau'r safle a'i selio pan ddoi ei oes arfaethedig o 50 mlynedd i ben.

Roedd NIREX a'r diwydiant niwclear wedi dadlau yn flaenorol y gellir gwneud hyn yn rhan o ddyluniad ystorfa gwastraff niwclear.

Y mae'n amlwg bellach nad yw hynny'n wir ond yn ystod oes weithredu 50 mlynedd o hyd y safle.

Cydnabu ym mis Gorffennaf 1991 mai dim ond yn ystod yr oes weithredol o 50 mlynedd y byddai hynny'n wir. Wedi cau'r safle, nid yw NIREX yn rhagweld y bydd angen tynnu'r gwastraff oddi yno.

Meddai Pad Green, Ymgyrchydd Gwastraff Ymbelydrol Cyfeillion y Ddaear: Mae NIREX wedi bod yn ceisio darbwyllo'r cyhoedd y gall ymdopi ag unrhyw broblemau gyda'r gwastraff. Ymddengys mai polisi NIREX yw claddu'r gwastraff ac yna anghofio amdano.'

Yn y cyfamser, mae gwyddonwyr sy'n gweithio gyda Chymdeithas Ddaearegol Brydeinig wedi rhybuddio NIREX ei bod yn wyddonol amhosibl darogan yn fanwl gywir ymddygiad daeareg dros y cyfnodau maith iawn o dan sylw.

Mae'r Asianateth Ynni Atomig Ryngwladol wedi rhybuddio NIREX y gallai llif gwastraff yn cynnwys papur, menig a deunydd organig arall gynyddu hydoddedd rhai radio nwcleidiau, yn cynnwys plwtoniwm , hyd at 10,000 o weithiau.

Golyga hyn y gallai dŵr daear llygredig symud yn ôl i fyny i wyneb y ddaear yn gyflymch na'r darogan.

Mae ymchwil NIREX ei hun wedi dangos erbyn hyn y gellid cynhyrchu foliwm o nwy ffrwydrol 400 gwaith yn fwy na foliwm yr ystorfa. Gallai hyn danseilio yn ddifrifol iawn integredd y gladdfa.

Nid yw NIREX yn bwriadu cyflwyno achos diogelwch llawn yn yr ymchwiliad cyhoeddus arfaethedig. Yn hytrach na hynny, ofna Cyfeillion y Ddaear y penderfynir ar faterion yn ymwneud â diogelwch yn ddirgel rhwng NIREX a'r rheolaethwyr, wedi i'r ystorfa £2.5 biliwn gael ei hadeiladu.

● Mewn cyfarfod yn Llundain ym mis Hydref 1987, cytunwyd ar gonsensws ymhlith grwpiau sy'n gwrthwynebu'r claddu:

1. Dim claddu na chael gwared o wastraff.
2. Dylid sicrhau ffyrdd cyfrifol a derbyniol o ddatrys problem *storio*.
3. Ar hyn o bryd, dylid storio gwastraff niwclear, yn cynnwys tanwydd hesb, mewn amodau damwain-ddiogel ar wyneb y ddaear, ar y safle lle cynhyrchir ef. Dylid cadw golwg cyson arno a'i dynnu oddi yno os bydd angen, a'i ail-becynu.
4. Dylid rhoi terfyn ar gynhyrchu gwastraff oherwydd cynhyrchu ynni niwclear ac ailbrosesu.

**Hugh Richards**
**Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru**



Charlie Murphy

## CYRCH HEDDWCH

Treiddiodd ymgyrchwyr dros heddwch i bentref chwaraeon rhyfel y fyddin ar Fynydd Epynt ym Mhowys ar 31 Awst. Roedd Jill Freeman yn eu plith.

Chwifiai'r faner goch filwrol yn erbyn awyr las mis Awst wrth i Osgordd y Picnic Heddwch yrru heibio'r rhwystr ar y ffordd i Fynydd Epynt ac i mewn i faestiroedd milwrol Pont Senni.

Disgleiriau tai gwyn yn arddull dwyrain Ewrop fel pentref gwyliau haf ar rosdir Cymru. Dim ond y defaid oedd yn gwylio.

Ac am bicnic heddwch! Dyma symud i mewn i'r 'fynwent' lle bu rhai wrthi'n bwyta, eraill yn ysgrifennu negeseuon heddwch a'u gludo ar y cerrig beddau ffug, ac yna ar yr 'eglwys' a'r ffug gartrefi ac adeiladau fferm lle bydd y milwyr yn chwarae fel arfer.

Buom yn siarad cryn dipyn ac edrych o gwmpas; roedd balŵns CND yn addurno'r coed a phlanwyd cennin pedr ar ffurf arwyddlun CND. Bu rhai aelodau yn edrych o gwmpas tŷ agored. Ymddangosodd baneri heddwch hyfryd ar yr eglwys, rhwng y coed ac ar gerbydau'r fyddin.

Am foment, yn yr heulwen ymhlith ffrindiau, bu bron i ni anghofio mai dyma lle mae dynion yn dysgu rhyfela, lle a gostiodd £7 miliwn i'w adeiladu, ar adeg pam esgeulisir iechyd, addysg, tai ac anghenion cymdeithasol eraill – bod hon yn gofeb i afiechyd cymdeithas.

Gadawsom negeseuon ar ein hôl yn mynegi fel yr ydym yn arswydo at y peiriant rhyfel, a'n gobeithion am heddwch.

Roedd y pentre'n wag. Ar ein ffordd yn ôl, tu hwnt i'r faner goch, gwelsom lond bws o filwyr Y Fyddin Diriogaethol ar eu ffordd i fyny i ymarfer lladd.

Pan fydd milwyr yn lladd, bydd cymdeithas yn cymeradwyo. Pan fydd eraill yn lladd, fe'u cosbir gan gymdeithas.

# DOLEN CARIAD

Daeth 'Mamau dros Heddwch' i fod ym 1981. Rhagwelai'r ddwy fenyw a'i sefydlodd famau unigol yn adeiladu pontydd ar draws gagendor y Rhyfel Oer. Ym mis Medi 1991 daeth pum menyw – dwy o Siapan, un o Fosgo, un o'r Wcraen a Mecsican-Americanes o Colorado – i ogledd Cymru i aros gyda thri theulu yng nghylch Trawsfynydd. Os carai unrhywun wybod mwy am y mudiad, y gysylltwraig yng Nghymru yw Frances Voelcker, Pant Glas Uchaf, Pant Glas, Gwynedd (tel. 0766 75 657) (Llun ar dud. 8 Saesneg).


## CND Cymru

Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

**YN RHENG FLAEN YR YMGYRCH AM GYMRU AN-FILWROL A BYD HEDDYCHLON.**

Dylid danfon cyfraniadau i Heddwch at
*James Stewart, 31 Romilly Crescent, Caerdydd CF1 9NP.*
I hysbysebu yn Heddwch, cysyllter â
*Mary Jones, 9 Idris Terrace, Plasmarl, Abertawe (0792 774687).*
Os am daflenni ymgyrchu neu wybodaeth gyffredinol, danfoner at
*Bob Cole (Ysgrifennydd Cyffredinol), Brynelltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW (0766 831356).*

Mae gennym ystod lawn o nwyddau CND.
**CRYSAU-T RHODDION CERDDI LLYFRAU BATHODYNAU STICERI**
Catalogau/archebion drwy:
Masnacha CND Cymru, Cae'rychain, Niwbwrch, Ynys Môn LL61 6SG.

**Carwn ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ..............................................................

Cyfeiriad ..............................................................

Amgaeaf siec/archeb bost am £ ...... yn daladwy i CND Cymru
P^ar £15 Oedolyn £10 Digyflog, pensiynwyr, myfyrwyr, ieuenctid £3 (noder pa gategori, os g. yn dda). Dychweler i CND Cymru, Brynelltyd, Tanysgrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW.


# Gair o gymod

Annwyl Heddwch

Llongyfarchiadau ar eich cylchgrawn newydd ac am roi teitl uniaith Gymraeg iddo sydd, ar yr un pryd, yn gwbl ddealladwy i'r di-Gymraeg, neu o leiaf a ddaw, yn fuan iawn, yn hysbys iddynt o'i ddefnyddio'n gyson fel hyn.

Diolch i'r golygydd am roi inni gynifer o bynciau amrywiol a diddorol, gan ymestyn gorwelion CND y tu hwnt i faterion niwclear yn unig. 'Roedd cynnwys ysgrif Thalia Campbell ar 'Y Ffordd i Greenham 1981' yn gam pwysig i'r cyfeiriad hwn a gobeithio y gwelwn fwy o erthyglau tebyg ar wahanol grwpiau heddwch yng Nghymru.

Yr hynaf o'r rhain yw Cymdeithas y Cymod a sefydlwyd ym 1914 gan wrthwynebwyr cydwybodol i'r rhyfel byd cyntaf. Sail eu gwrthwynebiad oedd eu cred Gristnogol nad oes hawl gan unrhyw berson ladd ei gyd-ddyn am unrhyw reswm, a deil hynny yn sail eu cred hyd heddiw.

Mae gan y Gymdeithas dri chant o aelodau yng Nghymru, pwyllgor gwaith o unarddeg, ac maent yn cynnal eu Cyngor Blynyddol ar Sadwrn cyntaf mis Mai bob blwyddyn yn Aberystwyth.

Prif waith y Gymdeithas erbyn hyn yw addysgu pobl ynglŷn â'r ffordd' ddi-drais, yn seiliedig ar Efengyl Crist ac yn cael ei weithredu trwy ddull unigryw Hildegarde a Jean Goss-Mayr.

Trefnir gweithdai o bryd i'w gilydd a bydd y nesaf i bobl ifainc rhwng 11 ac 16 oed yng Ngholeg y Bala, Chwefror 14-16 1992. Bydd croeso i aelodau ifainc CND ynghyd ag un neu ddau oedolyn. Dylid cysylltu am fanylion â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, 2 Oak Mews, Heol-y-Dderwen, Llangollen, Clwyd LL20 8RP yn fuan, a chanddi hi hefyd y ceir holl fanylion ymaelodi ac yn y blaen.

**Nia Rhosier,**
**Ysgrifennydd Cyffredinol**
**Cymdeithas y Cymod**

# SUT MAE OSGOI LLOSGI ALLAN

Mae gennyf ffrind sydd wedi bod gartref o'r gwaith am ddau fis. Llynedd, bu farw ei thad. Tan hynny, roedd wedi bod yn weithgar iawn yn y Mudiad Heddwch, gweithiai'n galed fel seiciatrydd ac yn ei hundeb, a gwnai waith cyfgynghori. Roedd ei dyddiau yn brydur dros ben ac âi i'w gwely wedi ymlâdd bob nos.

Llwyddodd i ymdopi, er mor anodd hynny, tan y bu ei thad farw. Nid dim ond oherwydd na fedrai ddygymod â'r golled, ond am fod y digwyddiad wedi llyncu eu hadnoddau olaf, a'i disbyddu'n feddyliol, fel na fedrai ymdopi â dim. Roedd hi wedi llosgi allan.

Adnoddau ydym ni, fel y coedwigoedd glaw, a gwyddom mai ffordd gall o ddefnyddio'r goedwig yw mewn modd pwyllog a chynaladwy sydd yn gofalu am anghenion y goedwig.

Felly, er mwyn bod yn ymgyrchwr effeithiol dros gyfnod maith, mae dau beth yn bwysig. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gofalu am ein hanghenion ein hunain, a rhaid i ni sicrhau nad ydym yn ein gosod ein hunain mewn sefyllfa i fethu.

Yn fynych, bydd gweithredwyr yn ei chael hi'n anodd rhoi eu hanghenion hwy gyntaf. Mae llawer ohonom yn teimlo'n euog ein bod yn gosod ein hanghenion ein hunain o flaen yr achos. Gallwn hefyd deimlo bod yr hyn yr ydym yn ymladd drosto mor bwysig nes mynnu ein holl egnion.

Ond os defnyddiwn ein hadnoddau yn y ffordd anghynaladwy hon, dichon y llosgwn allan a diflannu o faes y gad yn llwyr. Does bosib nad gwell gwneud llai a chadw i fynd am gyfnod hwy.

Dylai bod gan weithredwyr system gefnogol, fel bod rhywun yno i ofalu amdanaom ni pan fydd angen hynny. Gallai hynny olygu unrhyw beth o massage misol i rywun sy'n fodlon gwrando tra dywedwn mor ddig/blinedig/anobeithiol y teimlwn.

Yr ail anghenraid ar gyfer ymgyrchu effeithiol dros gyfnod maith yw teimlo ein bod yn cyflawni rhywbeth. Byddai'n hawdd i rywun a dreuliodd yr wythdegau yn gweithio ar ddatblygu'r trydydd byd edrych ar Affrica a'r newyn sy'n dal i fod yno a theimlo eu bod wedi gwastraffu eu hamser. Ond y gwir amdani yw bod eu hymdrechion hwy wedi achub llawer o fywydau.

Mae'n hanfodol eich gosod eich hun mewn sefyllfa i lwyddo. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng nodau a breuddwydion. Breuddwyd Martin Luther King oedd y gall 'yr holl bobl fod yn rhydd o'r diwedd'. Gosodai ei nod, ar y llaw arall, ar gyfer pob ymgyrch.

Y freddwyd ar gyfer CND yw gwaredu'r byd o arfau niwclear, ond rhaid gosod nodau unigol ar gyfer pob ymgyrch. Hyd yn oed os na chyrhaeddwn ein nod, rhaid cofio beth a gyflawnwyd. Wrth gwrs, gallwn ddysgu wrth edrych ar yr hyn nas cyflawnwyd, ond does dim pwrpas defnyddio hynny i'n fflangellu ein hunain.

Mae pa mor llwyddianus y teimlwch yn dibynnu nid yn unig ar faint a gyflawnir gennych ond hefyd yr hyn yr oeddech wedi gobeithio ei gyflawni. Mae llwyddiant yn esgor ar lwyddiant. Os rhoddwch eich hun mewn sefyllfa lle'r ydych yn debyg o fethu, ar y llaw arall, rydych yn debyg o ddigaloni a cholli ynni.

Gellir gweithredu ar rai o'r syniadau yn yr erthygl hon ar unwaith. Fe gymer eraill yn hwy gan eu bod yn mynd yn groes i batrymau ymddwyn a sefydlwyd dros flynyddoedd. Peidiwch â bod yn galed ar eich hunan, ond daliwch ati.

Byddaf yn rhedeg gweithdai i edrych ar y pwnc hwn ac ymarfer rhai o'r sgiliau i atal 'llosgi allan'. Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch fi ar Gaerdydd 481369, os gwelwch yn dda.

**Colin Heyman**

# Arf-farchnad

**Bydd Tachwedd 10fed yn ddydd dad na ddylid mo'i fethu. Bydd CND Casnewydd yn croesawu pobl i ddiwrnod o gyfarfodydd, gweithdai a thrafodaethau ar y Fasnach Arfau. Cynhelir y digwyddiadau hyn yn Nhŷ Brynglas yng Nghasnewydd, o 11.00 am – 4.00 pm a chodir tâl mynediad o £2.00 i'r cyflogedig a £1.00 i'r digyflog.**

**Gobeithiwn gynnal gweithdai ar bynciau megis: 'Y Fasnach Arfau yn y Trydydd Byd', 'Y Dwyrain Canol a'r Fasnach Arfau', 'Trawsnewid Arfau'. Byddwn hefyd yn dangos fideo YEFA. Rydym yn gofyn i bawb i ddod â bwyd y gellir ei rannu'n gymunedol.**

**Dylai hwn fod yn ddigwyddiad gwirioneddol dda, os helpwch chi i'w wneud yn llwyddiant. Cadwch lygad yn agored am wybodaeth bellach a ddanfonir at grwpiau cyn hir. Os carech wybod mwy, cysylltwch ag CND Casnewydd ar: 0633 279018 neu 0495 201124.**

Hilary Kanaris, CND Casnewydd

# Myned adref




Thalia Campbell

**Eleni oedd degfed penblwydd sefydlu gwersyll heddwch menywod Comin Greenham. Aeth Thalia Campbell, Aberystwyth, a oedd ar y daith wreiddiol o Gymru i Greenham, yn ôl yno am ychydig ddiwrnodau i ddathlu'r penblwydd.**

Dychwelais i Greenham ar Fedi'r 3ydd. Roedd y tywydd yn union fel yr oedd pan gerddasom i Greeham ym 1981, dyddiau poeth, euraid diwedd haf.

Roedd menywod o bob oed yn eistedd o gwmpas y tân, o bob rhan o wledydd Prydain yn ogystal ag o Sbaen, yr Eidal, Ffrainc ac Awstria. Neidiodd un fenyw allan o dacsi – roedd hi newydd hedfam i mewn o Awstralia.

Roedd llawer o'r menywod hyn wedi bod yn breuddwydio a chynllunio i ddod i Greenham ers blynyddoedd; roedd eraill yn dychwelyd am y penblwydd. Dechreuodd y goedwig lenwi â phebyll. Roedd iaith yn broblem ar adegau. Gyda'r nos, buom yn canu caneuon, hanner yn Ffrangeg, hanner yn Saesneg.

Taflodd pobl mewn car rywbeth gwlyb atom yn y tywyllwch pan oeddem yn canu o gwmpas y tân. Aeth menywod i mewn i silos y taflegrau yn ystod y nos.

Yn hwyr un noson, pan oedd y rhan fwyaf o'r menywod yn cysgu yn eu pebyll, daeth aelod o'r lluoedd Americanaidd allan, eistedd wrth y tân a dweud ei fod newydd gyrraedd o America, a phrin y gallai aros i ddweud wrthym gymaint yr oedd yn edmygu ein dyfal-barhad. Roedd yn meddwl ein bod yn haeddu cofeb. Roeddem eisoes wedi trafod y syniad o gerflun coffa yng Nghaerdydd!

Wedi brecwast, dyma dreulio awr neu ddwy yn crogi baneri ar y ffens, ond fe'u tynnwyd i lawr yn swrth gan ddau aelod o luoedd y DU. Felly, dyma godi'r baneri ar frigau'r coed, yn nes at y ffordd, ac eraill 40 troedfedd yn yr awyr uwchlaw'r clwydi, ar lein ddillad.

Cawsom sylw teg gan y cyfryngau – yn cynnwys cyfweliadau o gwmpas y tân, a dadl fyw ar Newyddion Teledu Sky gyda gwrthwynebydd lleol i'r gwersyll.

Dyma ninnau'n ymateb drwy ddweud bod y taflegrau cruise yn cael eu hailgylchu, bod meddylfryd y gwersyll milwrol yn dal mewn grym, bod menywod wedi ceisio atal rhyfeloedd erioed, ac mai Greenham oedd ein cartref ysbrydol.

# Brys am Bres

Mae ymgyrchu dros heddwch yn fusnes drud ac ni fydd byth gennym ddigon o arian i wneud popeth y carem ei wneud. Fodd bynnag, pan sylweddolwch yn union faint a wneir gyda'r cyllid cyfyngedig, a'r gwrthwynebiad yr ydym yn ei erbyn, mae'n siwr gennyf yr ymatebwch yn hael.

Mae CND beunydd ar y talcen caled mewn gwleidyddiaeth: yr ydym yn gwrthwynebu'r pwerau mwyaf nerthol posib – y Weinyddiaeth Amddiffyn â chyllideb flynyddol o £24 biliwn, ynghyd â mwyafrif y cyfryngau ac, yn y diwedd, sefydliadau gwleidyddol prif bleidiau gwleidyddol Prydain.

Yng Nghymru, carem allu gwneud mwy, a gydag etholiad cyffredinol ar y gorwel, mae arnom angen eich arian chi i'r cynorthwyo ni i gyflwyno ein hachos. Eleni, rydym wedi parhau â'n hymgyrchoedd yn erbyn Trident ac arfau niwclear newydd, wedi ymgyrchu yn erbyn rhyfel y Gwlff, hedfan isel a'r militareiddio parhaus ar ardaloedd helaeth o'r Canolbarth.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach.

Rydym wedi gwneud hyn oll ar gyllideb bitw. Yn awr, apeliaf arnoch yn uniongyrchiol i gynorthwyo i gynnal ein safle fel mudiad heddwch blaenllaw Cymru drwy ddanfon cyfraniad atom neu – gwell fyth – drwy gwblhau archeb banc i sicrhau incwm rheolaidd.

**Bob Cole**

# ASTUDIO I OROESI

*'Understanding War'* gan W.B. Gallie. (Cyfres 'Points of Conflict', Routledge, 1991.)

Yn y gyfrol hon, mae'r Athro Gallie, sydd bellach yn byw ac yn gweithio yng ngorllewin Cymru, yn llenwi bwlch mewn syniadau athronyddol am ryfel drwy drafod hanfod rhyfel ei hun.

Gwna ddau bwynt pwysig iawn ynglŷn â rhyfel sydd o werth wrth ddadlau o blaid diarfogi. Y naill yw tuedd rhyfel i ymledu a gwaethygu, a'r llall yw'r ffaith bod canlyniadau rhyfel, yn ddieithriad bron, yn bur wahanol i'r bwriad wrth ddechrau'r rhyfel, am na ellir rheoli rhyfel yn wleidyddol, wedi iddo gychwyn.

Seilir ein hagwedd ni tuag at ryfel ar y syniad gau y gellir ei ddefnyddio i reoli gweithredoedd o drais a gwrthdaro rhwng cenhedloedd neu grwpiau o bobl. Dywed bod y nodweddion hynny yn gynhenid mewn rhyfel ei hun, ac oherwydd bod gennym yr uwch-dechnoleg i allu llunio arfau a systemau dinistr torfol, y gwna'r rhain unrhyw ryfel yn hunan-laddol, o bosib, i'r ddynoliaeth.

Mae'n cloi â ffyrdd ymarferol o greu ymwybyddiaeth academaidd o'r angen am i ni newid ein hagwedd tuag at ryfel drwy greu 'Astudiaethau Goroesi'.

Dywed bod yn rhaid i ni esgor ar ymdeimlad o gymuned ddeallusol, sydd yn boenus o brin yn ein sefydliadau academaidd presennol, ac er mwyn gallu gwneud hynny 'rhaid i ddyn oroesi'.

**Ann Lukes**

**FFURFLEN ARCHEB BANC**

At y Rheolydd (Enw eich banc):

Cyfeiriad:

Côd sortio'r banc:

Rhif cyfrif:

Telr i CND Cymru y swm o £ bob mis, gan gychwyn ar / /1991

Arwyddwyd: Dyddiad: / /1991

At ddefnydd y swyddfa: at y Banc Cydweithredol CCC, Blwch Post 75, Yr Ais, Caerdydd CF1 1SW. Talwch yr Archeb Banc hon i gyfrif cyflog CND Cymru, os gwelwch yn dda, rhif y cyfrif 50616169-50

**FFURFLEN NODDI**

Dyma fy nghyfraniad o: £100, £50, £30, £20, £10, £5, £ (swm)

Amgaeaf siec/archeb bost yn daladwy i CND Cymru, neu debydwch fy ngherdyn Access/Visa am £ (swm)

Rhif cerdyn:

Dyddiad y daw i ben:

Llofnod:

Enw:

Cyfeiriad:

Danfoner y ffurflen hon at CND Cymru, Bryn Elltyd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW.

# Hiroshima

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae ein grŵp ni yn Llandrindod wedi plannu coeden i goffau Diwrnod Hiroshima. Mae'r coed mewn gwahanol safloedd o gwmpas y dref, ac mae'r pedair olaf yn y Gerddi Coffa. Maent bob un yn dwyn plac – Er cof am dydd Hiroshima – Awst 6ed 1945.

Byddwn yn cynnal gwylnos fer yn y dref cyn y plannu. Bydd y Maer yn mynychu'r seremoni a, pan fo modd, ffotograffydd o'r wasg. Roedd naw oedolyn a naw plentyn yn y plannu ym mis Awst eleni. Mae'r goeden, cerddinen, yn ffynnu, fel y mae'r gweddill i gyd.

**Vera Jones, CND Llandrindod**




Mae CND Cymru yn newyddion tudalen-flaen yn Latfia annibynnol.

Roedd gan wythnosolyn Riga *Tevzemes Avize* ddigon i adrodd arno ar yr 21 Medi – ymweliad Ysgrifennydd Gwladol yr UD, James Baker â Latfia.

Ond beth yw hyn o dan adroddiad Baker? Logo CND Cymru a llythyr oddi wrth 'Bob Kol' yn 'Velsa'! Ein Bob Cole ni, neb llai, yn danfon cyfarchion CND Cymru i Fudiad Heddwch Latfia, y sefydlwyd cysylltiadau ag ef ers blynyddoedd lawer.

CND Cymru is front-page news in newly-independent Latvia.

The Riga weekly Tevzemes Avize had plenty to report on 21 September – US Secretary of State James Baker's visit to Latvia.

But what's this under the Baker report? The logo of CND Cymru and a letter from "Bob Kol" in "Velsa"! have been established for several years.

# LLYGREDD HEB REOLAETH

A ddylai'r gwaddod yn Llyn Trawsfynydd fod dan reolaeth Deddf Defnyddiau Ymbelydrol 1960? Hugh Richards sy'n adrodd.

Mae crynodiadau o wastraff niwclaer lefel-isel uwch na 400,000 Bq/tunnell yn ddarostyngedig i reolaeth o dan Ddeddf Defnyddiau Ymbelydrol 1960. Yn ôl dogfen fewnol y BCTC ym 1988 (A Survey of the Distribution of Radioactivity in Trawsfynydd Lake Sediments) mae ymbelydredd cymedrig y llyn i lawr i ddyfnder o 300 mm yn fwy na dengwaith y lefel honno (4,279,000 Bq/tunnell).


Mae gan Floc E 8,258,900 Bq/tunnell, ac mae gan Floc K 13,873,000 Bq/tunnell – 34 gwaith y terfyn a ganiateir!

Gan fod y y crynodiad yn y gwaddod ymhell uwchlaw'r hyn a ddiffinir fel gwastraff ymbelydrol lefel-isel o dan y Ddeddf Defnyddiau Ymbelydrol 1960, ac yn cynnwys allyrwyr Alpha megis plwtoniwm, dylai fod yn ddarostyngedig i reolaeth o dan y Ddeddf, ac yn cael ei drin fel gwastraff niwclear.

Mae'r llyn yn 4,869 cilomedr sgwâr o arwynebedd, ac mae'r samplo yn awgrymu bod o leiaf y 300 mm uchaf yn llygredig. Mae foliwm y llaid llygredig felly yn 1,460,700 metr ciwbaidd – fwy neu lai yr un maint â foliwm yr holl wastaraff lefel-isel mae NIREX yn ceisio cael gwared ohono ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, oherwydd i'r arllwysfeydd i mewn i Lyn Trawsfynydd gael eu 'hawdurdodi' o dan y Ddeddf, ni wneir dim byd. Mae'r awdurdodau wedi caniatau creu llyn o wastraff ymbelydrol lefel-isel ynghanol Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r ymddygiad esgeulus a dihid yma yn annerbyniol, a dylai'r rheini sy'n gyfrifol orfod ateb am eu gweithredoedd.




# THIS TIME LATIN AMERICA WANTS TO BE DISCOVERED

1992 is a significant year not only for Europe but for the Americas too. It marks moves towards greater European integration but also the 500th anniversary of the arrival of Columbus in South America.

The first arrival of Europe in Latin America led to genocide and then a long period of colonial exploitation. 500 years on, it's time for a new era of co-operation between Europe and Latin America.

War on Want has joined 21 other international aid agencies in a campaign to ensure that Latin America is not forgotten in 1992. We have been working in partnership with the people of Latin America for over two decades, supporting practical work which tackles poverty and underdevelopment.

**Help us put Latin America back on Europe's agenda.**

- ☐ I would like more information about the 1992 Campaign
- ☐ I would like details on how I can support War on Want's projects in Latin America
- ☐ I would like to become a member of War on Want
- ☐ Name and address...

WAR ON WANT

Return this advert to: War on Want, 37-39 Great Guildford Street London SE1 0ES
Telephone (071) 620 1111. War on Want is a registered charity No. 208724

# ATALIWCH Y PRAWF YN NHRAWSFYNYDD



Mae eich hen gar yn methu prawf yr MOT, ac mae'n glir bod yn rhaid i chwi gael gwared ohonno. Be wnewch chi? Derbyn y ddedfryd. Dim ond y diwydiant niwcliar sy'n ddigon digwylaidd i anwybydd'r fath ddedfryd. Mae Trydan Niwcliar eisiau cwtogi ar safonau diogelwch er mwyn cadweu gorsafoedd Magnox yn gweithio. Maen nhw wedi dewis ei gorsaf mwyaf treuliedig Trawsfynydd i brofi y gallant ei wneud. 'Rydym ni yng Nghymru i fod yn foch gini i ddiwydiant sy'n rhoi arian o flaen diogelwch.

**Ni ddylid caniatau i Drawsfynydd ail agor.**

Mewn adolygiad term-hir a wneuthpwyd ym mis Medi, gwrthododd y Nuclear Installations Inspectorate (NII) drwydded i ganiatau Hinkley A weithio ar ôl diwedd 1991, oherwydd amheuon ynglŷn â diogelwch yr asiad ar ddysgl ddur yr adweithydd. Mae'r asiad yn dioddef o freuder oherwydd ymosodiad gan y niwtronau. Wrth i'r asiadau heneiddio maent yn mynd yn fwy anystwyth ac yn debygach o gracio dan bwysau - yn enwedig wrth oeri.

Darganfuwyd bod yr asiad yn y lle y gollyngir allan y nwy wedi mynd yn frau a gall gracio yn sydyn. Pe torrai'r asiad, gallai damwain ddigwydd, gan achosi colled o'r oeriedydd, methiant calon yr adweithydd, yn dilyn efallai doddi i lawr. Yn ol Eddy Ryder Prif Arolygydd yr NII, mae Trawsfynydd ar ben y gynghrair mewn perthynas gorsafoedd sy'n dioddef o freuder. Mae'r NII yn poeni, ond mae dan bwysau i ymlacio'r rheolau. Mae angen pwyso cyhoeddus i rwystro'r prawf yn Nhrawsfynydd, fel y rhwystrwyd yr un o'r blaen.

Dywedodd Dr Jon Large yn Nolgellau ar Hydref 23:

> "The safety case is precarious. In the event of a reactor scram the reactor will have to be depressurised over a period of 12 hours. The combination of a 'scram' with more demanding requirements due to problems of ageing means that human intervention is necessary within 30 minutes. This breaks the cardinal rule governing the operation of nuclear reactors in the UK."

Barnwyd fod 'y ddamwain sy'n aros i ddigwydd' yn 'anhygoel'. 'Does yna ddim cynlluniau brys. Mae ein diogelwch dan fygythiad.

**Mae amser yn prinhau, ond gydar gilydd gallwn rwystror prawf.**

Mynnwch safonau diogelwch digonol. Ni ddylid aberthu diogelwch am elw. Ysgrifennwch at:

- Eich AS
- HM Chief Inspector, NII, Thames House North, Millbank, London SW1P 4QL
- Eich Cyngor Lleol.

Cadwch mewn cysylltiad. Anfonwch y darn isod i WANA, PO Box 1, Llandrindod, Powys LD1 5RY

---

Rwyf eisiau gwybod am Ymgyrch Ataliwch Brawf Trawsfynydd

Enw:

Cyfeiriad:

Teleffon:

Rwyn barod i ymuno â phrotest yn Nhrawsfynydd ☐

Rwyn barod i ymuno â phrotest yn Westminster ☐

Amgaeaf gyfraniad o ☐

Welsh Anti Nuclear Alliance

Cynghrair Wrth Niwcliar Cymreig

